# Atezolizumab ar gyfer trin canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach ar ôl cemotherapi

16 Mai 2018

Mae atezolizumab (Tecentriq) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle nad yw'r celloedd yn fach mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- maent eisoes wedi cael cemotherapi (neu driniaeth wedi ei thargedu, os oes ganddynt diwmor EGFR- neu diwmor ALK-positif)
- caiff triniaeth gydag atezolizumab ei stopio ar ôl 2 flynedd neu phan mae'r afiechyd yn lledu, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd atezolizumab nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2937-5

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights